



ESRC Wales Doctoral Training Partnership

Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC

Gwobr PhD Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)

Dysgu iaith yn Seiliedig ar Ddefnydd: Sut mae'n gweithio

Mae'r Ganolfan Ymchwil Iaith a chyfathrebu (CLCR) ym Mhrifysgol Caerdydd, gyda chefnogaeth Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol ESRC Cymru (DTP Cymru) yn gwahodd ceisiadau gan ymgeiswyr eithriadol am ysgoloriaeth ymchwil PhD a ariennir yn llawn gan DTP ESRC.

GWYBODAETH YNGHYLCH Y DYFARNIAD CYDWEITHREDOL

- ***Dysgu iaith yn Seiliedig ar Ddefnydd: Sut mae'n gweithio***
Prifysgol Caerdydd, dan oruchwyliaeth Dr Andreas Buerki,
buerkiA@caerdydd.ac.uk; <https://www.cardiff.ac.uk/people/view/148384-buerki-andreas>

Ariennir y gwaith ymchwil hwn ar y cyd gan ESRC a Phrifysgol Caerdydd ac mae'n gydweithrediad gyda phartner prosiect SaySomethingin, <https://www.saysomethingin.com>

Nod y prosiect yw ymchwilio i ddull radical o ddysgu ail iaith yn seiliedig ar ddefnydd (L2s), gan gynnwys Cymraeg fel L2. Nodir y pwnc hwn a pharamedrau sylfaenol y prosiect, ond bydd yr union fanylion yn cael eu penderfynu ar y cyd gan y myfyrwr, y goruchwyliwr a'r partner, SaySomethingin. Mae damcaniaethau iaith a dysgu iaith ar sail defnydd wedi dod yn ddylanwadol iawn dros y 15 mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys wrth egluro caffael iaith gyntaf. Fodd bynnag, nid yw'r hyn a ddysgwyd wedi'i gymhwyso'n gyffredinol yn nghydestun dysgu L2 gan fod y methodoleg yn parhau i ddilyn dealltwriaeth fwy traddodiadol o ddysgu iaith. Mae'r prosiect hwn yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn trwy ymchwilio i sut y byddai dysgu L2 yn seiliedig ar ddefnydd yn gweithio. Felly, mae'r prosiect yn gyfle unigryw i greu dealltwriaeth ddamcaniaethol newydd ac o bwys gyda photensial clir i wella technegau dysgu L2 er budd ymarferol. O ganlyniad, mae gan y myfyrwr sy'n ymgymryd â'r ymchwil gyfle i wneud argraff ar ddau faes hynod brysur o ymholiadau ieithyddol: damcaniaethau ar sail defnydd a dysgu iaith.

Mae cwestiynau ymchwil tebygol yn cynnwys

- Pa mor ymarferol yw dysgu L2 yn seiliedig ar ddefnydd yn unig?
- Beth yw manteision ymarferol a/neu anfanteision disgwylidig dull sy'n seiliedig ar ddefnydd, o'i gymharu â dulliau traddodiadol?
- Pa addasiadau i ddamcaniaethau iaith sy'n seiliedig ar ddefnydd y tu hwnt i faes caffael L2 a awgrymir gan ganfyddiadau?

Bydd y myfyriwr yn gweithio yng Nghaerdydd, ond bydd disgwyl iddo ymweld â phartner y prosiect SaySomethingin yng Ngheredigion am gyfnodau byr. Bydd SaySomethingin yn cyfrannu tuag at y costau teithio a llety.

BETH FYDD YR YSGOLORIAETHAU ESRC YN EI GWMPASU

Bydd Dyfarniadau Ysgoloriaeth Ymchwil yn dechrau ym mis Hydref 2020 ac yn talu am eich ffioedd dysgu yn ogystal â grant cynhaliath (ar hyn o bryd yn £15,009 y flwyddyn ar gyfer 2019/20 i fyfyrwyr amser llawn, a ddiwedderir bob blwyddyn); ac mae'n cynnwys mynediad at grant cynnal hyfforddiant ymchwil ychwanegol (RTSG), er y gellir ' cyfuno 'elfen o'r gronfa hon a gofyn am geisiadau ar wahân o 2020 ymlaen. Mae cyfleoedd a manteision eraill ar gael i ddeiliaid ysgoloriaeth, gan gynnwys lwfans gwaith maes tramor (os yw'n berthnasol), cyfleoedd am interniaeth, ymweliadau â sefydliadau tramor a grantiau bychain eraill.

PWY SY'N GYMWYS

Mae ysgoloriaethau ymchwil ESRC yn gystadleuol iawn, a dylai ymgeiswyr fod â chefnidir academiaidd rhagorol yn y gwyddorau cymdeithasol, gan fod â gradd 1af neu 2il dosbarth uwch cryf; bydd ceisiadau gan y rheini sydd hefyd â gradd Meistr mewn ymchwil berthnasol (neu â chefnidir cyfatebol mewn hyfforddiant ymchwil) yn cael eu hystyried ar gyfer dyfarniad +3. Mae dyfarniadau llawn (ffioedd a thaliad cynhaliath) ar gael i Wladolion y Deyrnas Unedig a myfyrwyr y Deyrnas Unedig sy'n gallu bodloni gofynion preswyllo'r Deyrnas Unedig.

1+3 NEU +3

Mae'r dyfarniadau ar gael ar naill ai sail 1+3 neu 3+. Mae ysgoloriaeth 1+3 yn cynnig arian am bedair blynedd (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny'n rhan amser), gan gwblhau gradd Meistr hyfforddiant ymchwil yn y flwyddyn gyntaf, ac yna 3 blynedd o gyllid ymchwil ar gyfer PhD.

Mae ysgoloriaeth +3 yn cynnig cyllid am astudiaeth ymchwil PhD tair blynedd yn unig (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny'n rhan amser).

Oni bai bod gennych radd Meistr a oedd yn cynnwys elfen sylweddol o hyfforddiant ymchwil, bydd angen i chi ddilyn y llwybr 1 + 3. Er mwyn mesur a fyddai eich gradd Meistr bresennol yn ddigon i chi symud ymlaen yn uniongyrchol i + 3, cymharwch ei chynnwys â'n cwrs Meistr mewn ymchwil iaith a chyfathrebu, <https://www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/course/language-and-communication-research-ma>

CYFLWYNO CAIS

Mae'r drefn ar gyfer gwneud cais ar gael isod.

Mae dyfarniadau cydweithredol yn cynnwys gweithio gyda phartner nad yw'n academiaidd, sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y fanyleb. Mae'r prosiectau sy'n gysylltiedig â'r dyfarniadau hyn eisoes wedi'u diffinio'n rhannol o ran ffynonellau data, dulliau a chyfeiriadedd damcaniaethol bras.

Darllenwch y wybodaeth uchod sy'n amlinellu natur y prosiect, i sicrhau bod gennych y diddordebau, sgiliau a chefnidir academiaidd angenrheidiol ar gyfer cynnal yr ymchwil.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Dr Andreas Buerki (buerkiA@caerdydd.ac.uk) cyn gwneud cais. Nid yw gohebiaeth gyda Dr Buerki ac oddi wrtho, waeth pa mor galonogol, yn gwarantu y dyfernir yr ysgoloriaeth ymchwil i chi neu y cynigir lle i chi astudio PhD.

Mae disgrifiadau byr o lwybr ieithyddiaeth DTP ESRC Cymru, gyda phroffiliau byr o brosiectau myfyrwyr presennol a rhai a ariennir yn ddiweddar, i'w gweld yma:

<http://www.walesdtdc.ac.uk/pathway/linguistics/>

SUT MAE CYFLWYNO CAIS

Dylid cyflwyno ffurflen gais wedi'i **llenwi** ar gyfer cael eich derbyn i astudio doethuriaeth i Brifysgol Caerdydd trwy'r gwasanaeth cais uniongyrchol (<http://www.caerdydd.ac.uk/study/postgraduate/applying/how-to-apply> erbyn y dyddiad cau am hanner dydd 12:00, 3 Chwefror 2020. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau anghyflawn na rhai a ddaw i law ar ôl yr amser a bennwyd. Dylai ymgeiswyr nodi yn adran gyllid y ffurflen gais PhD eu bod yn gwneud cais am gyllid ESRC. O fewn y ffurflen gais PhD ar-lein, dylech nodi yn yr adran ariannu eich bod yn gwneud cais am ddyfarniad ESRC cydweithredol. Yn yr adran o'r enw 'Teitl Prosiect Ymchwil' ysgrifennwch enw'r dyfarniad cydweithredol hwn, *"Dysgu iaith yn Seiliedig ar Ddefnydd: Sut Mae'n Gweithio"*. Yn yr adran 'Goruchwyliwr', nodwch 'Andreas Buerki'. Os bydd gennych unrhyw anhawster neu ymholiad, anfonwch ebost at encap-pg@caerdydd.ac.uk.

Dylid anfon y dogfennau ategol a restrir isod at encap-pg@caerdydd.ac.uk os na ellir eu lanlwytho'n uniongyrchol fel rhan o'r cais ar-lein:

Ni dderbynnir ceisiadau anghyflawn neu rai a ddaw i law ar ôl y dyddiad a'r amser hwn.

Rhaid i'r cais gynnwys y dogfennau canlynol:

1. **Llythyr eglurhaol:** Cyfeiriwch hwn at Gyfarwyddwr Astudiaethau PGR ar gyfer y Ganolfan Ymchwil Iaith a chyfathrebu, Dr Gerard O'Grady. Rhaid i'r llythyr eglurhaol nodi eich rhesymau a'ch cymhelliad dros wneud cais i astudio yng Nghaerdydd ac o fewn y llwybr ieithyddiaeth; eich dealltwriaeth a'ch disgwyliadau o astudio doethuro; a chrynodeb o pam rydych yn ystyried eich bod chi'n ymgeisydd cryf i'w dderbyn ar y rhaglen PhD ac ar gyfer dyfarniad yr Ysgoloriaeth Ymchwil. Ni ddylai'r llythyr esboniadol fod yn fwy na dwy dudalen. Hefyd nodwch a ydych yn dymuno gwneud cais ar sail +3 neu 1 +3, ac os mai'r un cyntaf ydyw, pam mae eich profiad presennol yn eich eithrio rhag y flwyddyn Meistr.
2. **Datganiad Personol:** Gallwch ddefnyddio'r adran hon i roi gwybodaeth sy'n cefnogi eich cais am gael eich derbyn, er enghraifft sgiliau perthnasol, profiad, gwybodaeth a nodau gyrfaol. Nodwch eich diddordebau academiaidd yn glir a'r hyn rydych chi wedi'i astudio o'r blaen, gan ganolbwyntio'n benodol ar elfennau sy'n berthnasol i bwnc ymchwil yr ysgoloriaeth ymchwil, a'ch profiad yn fyfyrwr/ymchwilydd ym maes ieithyddiaeth a theori ieithyddol a / neu ddysgu iaith neu addysgu iaith. Gallwch nodi hefyd sut rydych yn meddwl y byddwch yn gallu cyfrannu at y prosiect a sut mae'n cyd-fynd â'ch diddordebau a'ch nodau ymchwil.
3. **Geirdaon:** Mae pob cais am gyllid ESRC yn gofyn am i ddau eirida academiaidd gael eu cyflwyno i'w cefnogi. **Rhaid i'r ymgeiswyr eu hunain fynd at y canolwyr a chynnwys y geirdaon ynghyd gyda'u cais.**
4. **Prawf o Gymhwysedd yn Saesneg:** Mae'n rhaid i ymgeiswyr nad yw'r Saesneg yn famiaith iddynt ddarparu prawf o gymhwysedd iaith Saesneg (o leiaf 7.0 IELTS ar gyfer MA a 7.5 IELTS i gael mynediad uniongyrchol i'r PhD).

5. **Curriculum Vitae:** Ni ddylai fod dros ddwy dudalen o hyd.
6. **Sampl o ysgrifenu** (uchafswm o 3000 o eiriau): Dylai'r sampl hon ddangos ysgrifennu academiaidd lefel graddedigion (neu ôl-raddedig). Gall fod yn ddarn o draethawd academiaidd neu draethawd hir. Fel arall, cewch gynnwys cyhoeddiad academiaidd byr neu ddarn o gyhoeddiad o'r fath. Defnyddir y sampl ysgrifennu i fesur eich gallu i gyrraedd, maes o law, y safonau uchel sy'n ofynnol ar gyfer cwblhau PhD a chyhoeddi eich ymchwil. Dylech lanlwytho eich sampl ysgrifennu ynghyd â'ch ffurflen gais.